ASESIAD A CHYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL DE ORLLEWIN CYMRU

CYFARFOD Y GRŴP TECHNEGOL RHANBARTHOL

Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Llun 28ain Ebrill 2003, am 2.00pm
Canolfan Ddinesig Penllergaer

Yn bresennol

Geoff White	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ceri Morris	CBS Castell-nedd Port Talbot
Vaughn Thomas	CBS Castell-nedd Port Talbot
Alban Forster	SLR Consulting Ltd
Cathy O'Brien	Uned Strategaeth Gwastraff (CCC)
Niall Reynolds	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Audrey Evans	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Graham Dorrington	Cyngor Sir Ceredigion
Neil Bateman	Cyngor Sir Caerfyrddin
Gareth Jones	Cyngor Sir Caerfyrddin
Peter Kendall	Cyngor Sir Caerfyrddin
Clifford Parish	Dinas a Sir Abertawe
Ruth Henderson	Dinas a Sir Abertawe
Philip Marks	CYLCH

1. **Ymddiheuriadau**

Ruth Brown	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Carol Williams	Cyngor Sir Penfro / Parc Cenedlaethol Sir Benfro
Howell Beaton	CBS Castell-nedd Port Talbot
Ifor Jones	Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro
Sue Martin	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Nick Oakes	Cyngor Sir Ceredigion

2. **Nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Ebrill 2003**

Cytunwyd bod y nodiadau'n gofnod cywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

Nodwyd nad oedd Philip Marks wedi cael gwybod am gyfarfodydd blaenorol y Grŵp Technegol. Gweithredu: **CM** i unioni'r broblem a threfnu ar gyfer darparu cofnodion / adroddiadau blaenorol.

3. **Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd**

Rhoddodd AF gyflwyniad ar y *Cyfnod Drafft 2b – Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd* diwygiedig. Dosbarthwyd copi o'r cyflwyniad felly nid yw'n cael ei ailadrodd.

Cafwyd trafodaeth a nodwyd / cytunwyd ar y prif bwyntiau canlynol.

- Gofynnwyd am sicrwydd a oedd y wybodaeth am y gost yn berthnasol / cywir. Cadarnhawyd bod y wybodaeth yn gywir am ei bod yn ystyried costau rheoli gwastraff cyfredol ynghyd ag elfen o brofiad Diwydiant;
- Mynegwyd pryder y gellid ystyried bod y broses hon yn hyrwyddo rhai prosesau a gweithdrefnau. Nodwyd y dylid pwysleisio'r ffaith bod y broses TAN21 yn galluogi rheoli gwastraff i gael ei 'yrru gan gynllunio';
- Dylid ceisio cael eglurhad oddi wrth CCC ynglŷn â sut bydd y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol yn

cael ei adlewyrchu yn y CDUau priodol. **Gweithredu**: Cathy O'Brien i drafod gyda Sue Martin;

- Trafodwyd a oedd angen modelu seithfed opsiwn. Cytunwyd os gellid gwneud hynny, y dylid ei wneud. **Gweithredu**: Cathy O'Brien i ganfod a fyddai CCC yn gallu ariannu hyn.
- Dylid ymgynghori â buddiolwyr ynglŷn â'r chwe opsiwn o leiaf – **Cytuno**;
- Dylid cyflwyno argymhelliad i'r Fforwm Aelodau gytuno ar y *Cyfnod Drafft 2b – Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd* fel dogfen ar gyfer ymgynghori â buddiolwyr – **Cytuno**;
- Oherwydd terfynau amser cyfredol, dylai'r broses ddrafftio ar gyfer y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol ddechrau'n gyfochrog ag ymgynghori â buddiolwyr – **Cytuno**;
- Dylid anfon unrhyw sylwadau terfynol ynglŷn â'r Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd at Alban Forster erbyn dydd Gwener 2^{il} Mai.

4. Ymgynghoriad Cyhoeddus

Dywedodd GW wrth y Grŵp bod y Grŵp Llywio Cydymgynghorol wedi cwrdd i drafod y ffordd ymlaen. Cyflwynwyd drafft cychwynnol o holiadur / taflen waith ymgynghorol gan swyddogion De Ddwyrain Cymru.

Gweithredu: **CM** i ddosbarthu'r holiadur ar gyfer sylwadau ac unrhyw adborth i'w dderbyn erbyn dydd Mercher 7^{fed} Mai.

Trafodwyd mater deunyddiau dwyieithog. Amlinellodd GW goblygiadau'r gost ac anawsterau dylunio cynhyrchu deunyddiau dwyieithog a gofynnodd am farn ynghylch a fyddai'n dderbyniol darparu llenyddiaeth Gymraeg ar gais.

Cytunwyd oherwydd ymrwymiadau polisi'r iaith Gymraeg, byddai angen i ddeunyddiau ymgynghorol fod yn ddwyieithog.

Nodwyd hefyd at ddibenion ymgynghori, bod angen un pwynt cyswllt oddi wrth pob awdurdod cyfansoddol. **Gweithredu**: Gwirfoddolwyr i gysylltu â naill ai GW neu CM.

5. Drafft 1^{af} y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol – Y Ffordd Ymlaen

Dosbarthwyd amserlen arfaethedig.

Cytunwyd y dylai CCC ddarparu arweiniad ar gyfer fframwaith cyffredin i'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Dywedodd Cathy O'Brien wrth y Grŵp bod cyfarfod Cyswllt Cymru Gyfan wedi cael ei drefnu ar gyfer dydd Mercher 14^{eg} Mai a byddai'n sicrhau y bydd y mater yn cael ei godi.

Cytunwyd ar ddiwygiad i'r amserlen fel bod y Grŵp Technegol nesaf yn cwrdd ym mis Mehefin.

6. Dyddiad cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol

Cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Grŵp Technegol yn cael ei gynnal am 2.00pm ddydd Gwener 13^{eg} Mehefin 2003, yng Nghanolfan Ddinesig Penllergaer.

7. Unrhyw Fusnes Arall

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.